# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 5 Mehefin 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru
Cwestiynau i Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd
Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Atebolrwydd i'r Cyhoedd (Y Cabinet)

**C15 Gareth Jones:** Beth yw cynlluniau Prif Weinidog Cymru ar gyfer gwneud y Cabinet yn fwy atebol i'r cyhoedd? (OAQ11799) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Dyfodol Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**C16 Peter Black:** Pa drafodaethau a gafodd Prif Weinidog Cymru gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch y cynigion ar gyfer dyfodol Cynulliad Cenedlaethol Cymru? (OAQ11754)

**Prif Weinidog Cymru**: Yr wyf yn cael trafodaethau cyson â'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch hyn a materion eraill.

### Effaith y Cynulliad ar Ogledd Cymru

**C17 Peter Rogers:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru asesiad o'r effaith y mae'r Cynulliad wedi'i gael ar ogledd Cymru yn ei ddwy flynedd gyntaf? (OAQ11751)

**Prif Weinidog Cymru**: Mae'r Cynulliad wedi gweithio yng ngogledd Cymru, a thrwy Gymru gyfan, i fynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol, sicrhau cyfle cyfartal i bawb a chreu dyfodol cynaliadwy i Gymru. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, yr ydym wedi buddsoddi'n sylweddol i wella ein gwasanaethau yng ngogledd Cymru, yn benodol:

- Sianelu cymorth rhanbarthol dewisol i greu a chadw swyddi yn Llanelwy, Glannau Dyfrdwy, Bangor a Brychdyn;
- Mae'r A55 bellach ar agor fel cyswllt technoleg cyfathrebu gwybodaeth a thrafnidiaeth;
- Mae'r Cynulliad yn ariannu gwasanaeth uniongyrchol i deithwyr rhwng gogledd a de Cymru.

### Hyrwyddo Busnesau Cynhenid (Partneriaeth â Busnes)

**C18 William Graham:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ynghylch hyrwyddo busnesau cynhenid o fewn y cynllun partneriaeth â busnes? (OAQ11820)

**Prif Weinidog Cymru**: Trefnwyd y cynllun partneriaeth â busnes i fod yn gyswllt â'r byd busnes. Nid yw'n canolbwyntio ar sectorau penodol o unrhyw ddiwydiant ond mae'n anelu at sicrhau bod y gymuned fusnes yn gyffredinol yn cyfrannu at brosesau gwneud penderfyniadau y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r Cyngor Partneriaeth Busnes yn hwyluso hyn.

### Y Cytundeb Partneriaeth (Effeithiolrwydd)

**C19 Alun Cairns:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar effeithiolrwydd y cytundeb partneriaeth mewn perthynas â Llywodraeth Cymru? (OAQ11750)

**Prif Weinidog Cymru**: Mae'r cytundeb partneriaeth wedi darparu ar gyfer dull cadarn a phenodol o gyflwyno polisïau ar gyfer pobl Cymru. Gwnaed datganiad ar y llwyddiannau hyd yma ynglŷn â 'Rhoi Cymru'n Gyntaf: Partneriaeth ar gyfer Pobl Cymru' ar 20 Mawrth 2001.

### Gwaith Diweddar y Cabinet Dramor

**C20 Janet Davies:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar waith a wnaethpwyd dramor gan ei gyd-Aelodau yn y Cabinet yn ddiweddar? (OAQ11755) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Polisi'r Cynulliad ar Nawdd Ewropeaidd

**C21 Nick Bourne:** A gafodd Prif Weinidog Cymru unrhyw drafodaethau â'r Undeb Ewropeaidd yn ddiweddar mewn perthynas â pholisi'r Cynulliad ar nawdd Ewropeaidd? (OAQ11822)

**Prif Weinidog Cymru**: Mae trafodaeth ar y gweill ynghylch dyfodol nawdd Ewropeaidd ar ôl 2006 ac, yng Nghymru, yr ydym yn ystyried beth sydd orau i ni, a bydd ein safbwyntiau'n cael eu hystyried yn null gweithredu cyffredinol y DU. Roedd y fforwm cydlynu diweddar ym Mrwsel yn rhoi darlun gwerthfawr i ni o'r themâu a'r pryderon allweddol sy'n ymddangos ledled y 15 aelod-wladwriaeth bresennol ynghylch ehangu'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol. Fodd bynnag, dyddiau cynnar yw hi ar hyn o bryd ac mae'n bwysig nad ydym yn colli golwg ar sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer ein rhaglenni presennol gyda'r UE.

## Cwestiynau i Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

### Cyllid Cymru (Perfformiad)

**C6 Jocelyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog roi gwybod am berfformiad diweddaraf Cyllid Cymru ccc? (OAQ11783)

**Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd (Michael German)**: Ar 2 Mawrth 2001, cyhoeddodd y Cynulliad gyfarwyddyd i Awdurdod Datblygu Cymru (bydd copi ohono ar y fewnrwyd yn fuan). Yr oedd hwn yn rhoi cyfarwyddyd ffurfiol i'r WDA drosglwyddo ei gynnyrch ariannol i Gyllid Cymru ccc, cwmni ategol y mae'r WDA yn berchen arno ond a gaiff ei reoli'n annibynnol. Mae Cyllid Cymru yn awr yn gweithredu cyfres o gynnyrch ariannol a rhaglenni cefnogaeth ar gyfer rheolwyr cwmnïau bach a chanolig eu maint a mentrau cymunedol yng Nghymru.

Mae'n rhy gynnar i ni asesu perfformiad cyffredinol Cyllid Cymru ar hyn o bryd, ond mae wedi dechrau'n gadarnhaol. Y prif amcan yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf yw cael cymeradwyaeth y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer y prosiectau Amcan 1 uchelgeisiol y mae Cyllid Cymru yn gobeithio eu rhedeg, gan gynnwys cronfa benthyg a mesanîn, cronfa ecwiti a dwy gronfa newydd i gynorthwyo materion sy'n ymwneud ag olyniaeth ym myd rheoli ac ynni adnewyddadwy.

### Y Diwydiant Twristiaeth yng Nghymru

**C7 Ieuan Wyn Jones:** A all y Gweinidog roi adroddiad ar unrhyw drafodaethau a gafodd gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y rhagolygon i'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn y dyfodol? (OAQ11789)

**Michael German**: Pan gyfarfûm â'r Ysgrifennydd Gwladol ar 23 Ebrill, cawsom drafodaeth ynghylch effaith clwy'r traed a'r genau ar y diwydiant twristiaeth yng Nghymru a'r mesurau sy'n cael eu

mabwysiadu i gynorthwyo busnesau twristiaeth sy’n wynebu anawsterau o ganlyniad i glwy’r traed a’r genau, megis gostwng trethi, newid y cynllun gwarant benthyciadau i gwmnïau bach, sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i gefn gwlad a sicrhau mwy o arian i Fwrdd Croeso Cymru allu marchnata Cymru.

### Datblygu Economaidd yn y Barri

**C8 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cyfleoedd ar gyfer datblygu economaidd yn y Barri? (OAQ11742)

**Michael German**: Nod y weinyddiaeth yw sicrhau bod Cymru gyfan yn elwa ar bolisïau’r Cynulliad sy’n darparu cefnogaeth i ardaloedd sydd ag anghenion cymdeithasol ac economaidd.

Fel rhan o hynny, yr ydym yn datblygu strategaeth datblygu economaidd genedlaethol. Bydd hon yn canolbwyntio ar feysydd penodol, megis annog entrepreneuriaeth a bod yn arloesol, datblygu’r sgiliau sy’n angenrheidiol ar gyfer economi ddatblygedig, annog busnesau i edrych ar faterion o safbwynt rhyngwladol, a sut mae gwneud Cymru’n ddeniadol i fusnesau a’r bobl sy’n gweithio yn y busnesau hynny.

O wneud hynny, byddwn yn annog y broses o ddatblygu economi flaengar a chystadleuol yng Nghymru. Bydd hyn o fudd i bobl Cymru, gan gynnwys y rhai sy’n byw ac yn gweithio yn y Barri.

### Cyllid Cymru

**C9 Mick Bates:** Pa drafodaethau’n ymwneud â Chyllid Cymru ccc y mae’r Gweinidog wedi’u cael gyda Ysgrifennydd Gwladol Cymru? (OAQ11794)

**Michael German**: Nid wyf wedi trafod â’r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch Cyllid Cymru ccc.

### Busnesau Twristiaeth yn Nghymru Wledig

**C10 Glyn Davies:** Pa gamau y mae’r Gweinidog wedi’u cymryd i helpu busnesau twristiaeth yn y Gymru wledig? (OAQ11816)

**Michael German**: Fe’ch cyfeiriaf at y daflen wybodaeth a anfonwyd at bob Aelod Cynulliad sy’n disgrifio’r cymorth sydd ar gael ar gyfer busnesau gwledig yng Nghymru. Fe drefnaf fod copi arall yn cael ei anfon atoch.

### Anweithgaredd Economaidd Dynion rhwng 60 a 64 Oed mewn Hen Ardaloedd Glo

**C11 Pauline Jarman:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar anweithgaredd economaidd ymhlith dynion rhwng 60 a 64 oed mewn hen ardaloedd glo yng Nghymru? (OAQ11786)

**Michael German**: Mae lefelau anweithgaredd uchel i'w gweld ymhlith y grŵp hwn. Er nad oes gennym wybodaeth am faint o'r grŵp hwn sy'n manteisio ar unrhyw gefnogaeth, mae cefnogaeth ar gael i gynorthwyo dynion nad ydynt yn gweithio i ailymuno â’r farchnad lafur drwy gyfrwng rhaglen y Cynulliad ar ddysgu yn y gwaith i oedolion a rhaglenni "o fudd-dal i waith" Llywodraeth y DU (yn bennaf Y Fargen Newydd ar gyfer pobl anabl a’r Fargen Newydd Dros 50). Yng Nghymru, cânt eu cyflwyno mewn partneriaeth â’r Cynulliad Cenedlaethol. Bydd y rhaglenni hyn yn cyd-fynd ac yn cyfrannu at gynlluniau a strategaethau’r Cynulliad Cenedlaethol, megis Rhoi Cymunedau’n Gyntaf a’r strategaeth datblygu economaidd genedlaethol.

### Clwy’r Traed a’r Genau (Cymorth Ariannol i Fusnesau yng Nghymru)

**C12 David Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cymorth ariannol a roddir i fusnesau yng Nghymru i’w helpu i ymdopi ag effeithiau’r rhaglen i erydu clwy’r traed a’r genau? (OAQ11770)

**Michael German**: Fe’ch cyfeiriaf at y daflen wybodaeth a anfonwyd at bob Aelod Cynulliad yn disgrifio’r cymorth sydd ar gael ar gyfer busnesau gwledig yng Nghymru. Fe drefnaf fod copi arall yn cael ei anfon atoch.

**Clwy’r Traed a’r Genau (Trafodaethau gyda’r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant)**

**C13 Cynog Dafis:** A wnaiff y Gweinidog sôn am unrhyw drafodaethau a gafodd gyda’r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant ynghylch effaith canolig a thymor hir clwy’r traed a’r genau ar fusnesau bach yng Nghymru? (OAQ11777)

**Michael German**: Fel aelod o dasglu gwledig y DU a sefydlwyd i roi sylw i'r problemau sy'n ymwneud â chlwy'r traed a'r genau, sy'n cynnwys cynrychiolwyr Gweinidogion yr Adran Masnach a Diwydiant, yr wyf wedi mynegi'n glir gymaint y mae'r clwyf wedi achosi anawsterau i'n cymunedau gwledig a'r busnesau sydd y tu allan i'r ardaloedd hynny. Lluniwyd pecyn o fesurau cynorthwyo ac yr ydym yn parhau i fonitro'r sefyllfa'n ofalus.

**Blaenoriaeth 5, Mesur 5 o Rhaglen Amcan 1**

**C14 Peter Rogers:** Pa gynnydd a wnaethpwyd i weithredu blaenoriaeth 5, mesur 5 o’r rhaglen Amcan 1? (OAQ11749) [R]

**Michael German**: Neilltuwyd £2,332,750 o'r mesur hwn hyd yma, o ddyraniad disgwyliedig o £3,931,000 ar gyfer 2000 a 2001. Mae £2,332,750 wedi cael ei gymeradwyo gan brosiect y bartneriaeth bwyd-amaeth, dan weinyddiaeth Adran Amaethyddiaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Clwy’r Traed a’r Genau (Effaith ar Dwristiaeth)**

**C15 Eleanor Burnham:** Pa fesurau a weithredodd y Gweinidog i wrthsefyll yr effaith ar dwristiaeth o ganlyniad i argyfwng clwy’r traed a’r genau? (OAQ11762)

**Michael German**: Fe’ch cyfeiriaf at y daflen wybodaeth a anfonwyd at bob Aelod Cynulliad yn disgrifio’r cymorth sydd ar gael ar gyfer busnesau gwledig yng Nghymru. Fe drefnaf fod copi arall yn cael ei anfon atoch.

**Y Fforwm Ewropeaidd ar yr Adroddiad Cydlyniad**

**C16 Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y fforwm Ewropeaidd ar yr adroddiad cydlyniad a fynychodd ym Mrwsel yn ddiweddar? (OAQ11780) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cynllun Datblygu Cynaliadwy**

**C17 Rhodri Glyn Thomas:** Sut y bydd y Gweinidog yn sicrhau y caiff polisi economaidd ei ddatblygu o fewn fframwaith trosfwaol y cynllun datblygu cynaliadwy? (OAQ11785) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Sefydlu Sefydliad Cenedlaethol Technoleg Cymru**

**C18 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sefydlu sefydliad cenedlaethol technoleg Cymru? (OAQ11763)

**Michael German**: Yr wyf yn awyddus i barhau â chynlluniau i sefydlu sefydliad cenedlaethol technoleg Cymru. Er mwyn symud at y nod hwnnw, cyfarfûm yn ddiweddar â grwpiau sydd â diddordeb er mwyn trafod dyfodol adroddiad ‘Cymru.com Solutions’ a gomisiynwyd gan Awdurdod Datblygu Cymru, sy'n gwneud amryw o argymhellion ynghylch sut i fwrw ymlaen â datblygiad o'r fath.

Roedd y cyfarfod hwnnw o fudd mawr. Canlyniad hyn yw fy mod wedi gofyn i swyddogion baratoi cynllun datblygu wedi ei gostio'n llawn, ar y cyd â grwpiau sydd â diddordeb, ac yr wyf yn gobeithio y gallaf ei gyflwyno i'r Cynulliad yn ystod y misoedd nesaf.

### Clwy'r Traed a'r Genau (Helpu Cwmnïau Twristiaeth yn Eryri)

**C19 Nick Bourne:** Pa fesurau arbennig sydd yn cael eu rhoi ar waith i helpu cwmnïau twristiaeth yn Eryri am iddynt golli refeniw o ganlyniad i'r achosion o glwy'r traed a'r genau? (OAQ11740)

**Michael German**: Cyngor Gwynedd gafodd y dyraniad unigol mwyaf—tua £1.5 miliwn—o becyn £12 miliwn y Cynulliad i gefnogi busnesau sydd wedi dioddef yn sgîl clwy'r traed a'r genau. Mae Bwrdd Croeso Cymru wedi darparu £280,000 i gefnogi cynlluniau marchnata ar gyfer y 12 ardal farchnata yng Nghymru, ac mae Eryri wedi cael £34,000 ohono.

### Helpu'r Diwydiant Twristiaeth yn Sir Fynwy

**C20 David Davies:** Pa fesurau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i helpu'r diwydiant twristiaeth yn Sir Fynwy? (OAQ11771)

**Michael German:** Mae gan Sir Fynwy strategaeth datblygu economaidd sy'n cynnwys datblygu a hyrwyddo twristiaeth. Mae Sir Fynwy'n gymwys i dderbyn cymorth ariannol gan Fwrdd Croeso Cymru i gefnogi cynlluniau buddsoddi cyfalaf ac mae cynlluniau a chyfleoedd marchnata hefyd ar gael drwy gyfrwng gwaith hyrwyddo ar y cyd rhwng Bwrdd Croeso Cymru, cwmnïau twristiaeth rhanbarthol, awdurdodau lleol a'r diwydiant.

Mae Bwrdd Croeso Cymru newydd ddarparu £11,500 ar gyfer cynlluniau marchnata penodol yn Sir Fynwy.

### Cyllid Cymru (Gweithrediad)

**C21 Gareth Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar weithrediad Cyllid Cymru ccc? (OAQ11784) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Twristiaeth yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro

**C22 Christine Gwyther:** A all y Gweinidog wneud datganiad am unrhyw fesurau penodol sydd yn eu lle i helpu twristiaeth yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro? (OAQ11815) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Archwiliad Sgiliau ar gyfer De Cymru

**C23 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt yr archwiliad sgiliau ar gyfer de Cymru a'r mentrau hyfforddiant a gynigir i gwrdd â'r arbenigedd y gwelwyd fod ei angen ar ddiwydiannau yn yr ardal hon? (OAQ11765)

**Michael German**: Er mwyn helpu i asesu materion sgiliau yng Nghymru, mae'r Cynulliad wedi arwain rhaglen Sgiliau Dyfodol Cymru ar y cyd ag amrywiaeth eang o bartneriaid sy'n cynnwys Conffederasiwn Diwydiant Prydain, Cyngres yr Undebau Llafur, Dysgu ac Addysgu Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Cyhoeddwyd y prif adroddiad a'r adroddiadau rhanbarthol, gan gynnwys adroddiadau ar gyfer de-ddwyrain a de-orllewin Cymru, ym mis Mawrth 1999. Gwnaed mwy o waith ers hynny i nodi anghenion sgiliau galwedigaethol mewn sectorau penodol a chyhoeddwyd yr adroddiadau hynny ym mis Tachwedd 2000. Mae'r gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn cynnwys datblygu taflenni rhagolygon swyddi i drosi gwybodaeth am y farchnad lafur i iaith a fformat y gall unigolion eu defnyddio'n hawdd.

Mae'n ofynnol i ELWa, yn ôl amodau'r llythyr gan y Cynulliad sy'n nodi ei gylch gwaith, asesu anghenion sgiliau Cymru, gan weithio gyda chyflogwyr, a gweithredu darpariaeth er mwyn eu

cynorthwyo i ddiwallu’r anghenion hynny. Caiff anghenion sgiliau de Cymru eu hasesu gan gynghorau rhanbarthol de-ddwyrain a de-orllewin Cymru. Ochr yn ochr â hyn, mae'r consortia cymunedol dros addysg a hyfforddiant yn mapio'r ddarpariaeth er mwyn sicrhau ei bod yn diwallu’r anghenion sgiliau a nodwyd. Yn ogystal â hyn, cynhelir asesiadau o sgiliau sectorau gan gyrff hyfforddi cenedlaethol dan arweiniad y cyflogwyr, sy'n gyfrifol am ffurfio strategaethau i fynd i'r afael â phrinder sgiliau neu unrhyw fylchau a nodwyd.

Mae gan y Cynulliad, yn gweithio drwy ELWa, amryw o raglenni sy'n helpu i wella sgiliau'r gweithlu yng Nghymru, gan gynnwys rhaglen dysgu yn y gwaith i oedolion, Meithrin Medrau, a rhaglen Ceiswyr Sgiliau. Mae'r rhaglenni hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar y di-waith a phobl dan 25 oed. Yn ddiweddar, yr ydym wedi cyflwyno diploma sgiliau modern i oedolion ac wedi cael gwared â'r terfyn oedran uchaf o 25 ar gyfer prentisiaethau modern.

**Pecyn Cymorth ar gyfer Cymunedau Dur yng Nghymru**

**C24 Phil Williams:** A wnaiff y Gweinidog roi’r wybodaeth ddiweddaraf ar roi’r pecyn cymorth ar waith ar gyfer y cymunedau dur yng Nghymru? (OAQ11775) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Datblygu Dyfrffyrdd a Chamlesi**

**C25 Brian Hancock:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddatblygu dyfrffyrdd a chamlesi mewn perthynas â thwristiaeth a datblygu economaidd? (OAQ11779) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Amcan 1**

**C26 Phil Williams:** A wnaiff y Gweinidog roi’r wybodaeth ddiweddaraf am y nifer sydd yn manteisio ar y cyllid sydd ar gael o dan raglen Amcan 1? (OAQ11774) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Treth Busnes Leol**

**C27 Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw sylwadau y mae wedi’u derbyn mewn perthynas â chynigion i gyflwyno treth busnes leol? (OAQ11769) ***Trosglwyddwyd i’w ateb gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau.***

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Yn yr atebion a gawsom i'n hymgynghoriad ar gyllid llywodraeth leol, soniodd llawer am y cynigion ar gyfer cyfradd leol atodol. Fel a nodais yn fy ateb i chi ar 24 Mai (OAQ11654), byddaf yn ystyried yr holl sylwadau a ddaw i law cyn gwneud penderfyniad terfynol.

**Comisiwn Ewropeaidd (Diswyddiadau Torfol)**

**C28 Ieuan Wyn Jones:** A all y Gweinidog sôn am unrhyw drafodaethau y mae wedi’u cael gyda’r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch ei gyhoeddiad diweddar am ddiswyddiadau torfol? (OAQ11776) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Busnesau Newydd a Busnesau sydd yn Cael Cyfnod Anodd yng Ngogledd Cymru**

**C29 Alison Halford:** Pa gamau y mae’r Gweinidog wedi’u cymryd i gynghori a chefnogi busnesau newydd a busnesau sydd yn cael cyfnod anodd yng ngogledd Cymru? (OAQ11829) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Clwy’r Traed a’r Genau (Effaith ar y Diwydiant Twristiaeth yng Nghymru)**

**C30 David Lloyd:** A all y Gweinidog sôn am unrhyw drafodaethau y mae wedi’u cael gyda’r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant ynghylch effaith canolig a thymor hir clwy’r traed a’r genau ar y diwydiant twristiaeth yng Nghymru? (OAQ11787) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

### Defnyddio'r £100 Miliwn Ychwanegol a Ddyrannwyd i Gyllideb y Cynulliad Cenedlaethol

**C9 Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y modd y mae'r £100 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd i gyllideb y Cynulliad Cenedlaethol yn cael ei ddefnyddio? (OAQ11804)

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart)**: Byddaf yn gwneud datganiad i'r Cynulliad gyn gynted â phosibl ynghylch dyrannu adnoddau ychwanegol y gyllideb yn y flwyddyn ariannol bresennol. Tua £32.5 miliwn yw cyfanswm hyn. Bydd gweddill yr adnoddau ychwanegol, sef tua £67.3 miliwn, yn cael ei ddyrannu yng ngoleuni blaenoriaethau a bennir yn rownd gynllunio'r gyllideb.

### Rhan y Sector Gwirfoddol yn y Broses o Gynllunio'r Gyllideb

**C10 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch rhan y sector gwirfoddol yn y broses o gynllunio'r gyllideb? (OAQ11748)

**Edwina Hart**: Mae mecanweithiau ar waith a fydd yn galluogi'r sector gwirfoddol i gyfrannu llawer mwy nag erioed o'r blaen at y broses o gynllunio cyllideb y Cynulliad. Mae argymhellion gan gyngor partneriaeth y sector gwirfoddol eisoes wedi dylanwadu ar amseriad rownd gynllunio'r gyllideb ac mae cynllun y sector gwirfoddol yn golygu bod yn rhaid i Weinidogion gwrdd â'r sector gwirfoddol o leiaf unwaith y flwyddyn i drafod materion sy'n ymwneud â'r gyllideb.

### Cyllid Ychwanegol o Drysorlys y DU

**C11 David Davies:** A yw'r Gweinidog wedi llwyddo i sicrhau cyllid ychwanegol o drysorlys y DU i alluogi'r Cynulliad i gyflawni ei ymrwymiadau i'r rhannau o Gymru sydd wedi'u heffeithio waethaf gan glwy'r traed a'r genau? (OAQ11759)

**Edwina Hart:** Mewn amgylchiadau pan fo nawdd ychwanegol ar gael i Adrannau yn Lloegr er mwyn cynorthwyo i dalu am gostau clwy'r traed a'r genau, bydd cyllideb y Cynulliad hefyd yn derbyn cynnydd ôl-ddilynol. Caiff unrhyw gynnydd o'r fath ei weithredu adeg amcangyfrif atodol y gaeaf yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol.

### Gweinyddu Polisïau Gwerth Gorau

**C12 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch gweinyddu polisïau Gwerth Gorau? (OAQ11812) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig dan bortffolio llywodraeth leol y Gweinidog.***

**Edwina Hart:** Cafodd set o ddangosyddion perfformiad Gwerth Gorau a symleiddiwyd, ac a gymeradwywyd gan y Cynulliad, eu rhoi ar waith ar 1 Ebrill ac mae cyfrif stoc ar y gweill i bennu sut y gellir defnyddio gwersi a ddysgwyd o'r flwyddyn gyntaf er mwyn gwella effeithiolrwydd polisïau Gwerth Gorau.

### Prosesau Tendro

**C13 Cynog Dafis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch pa mor ddiduedd yw'r prosesau tendro ar gyfer contractau sydd yn cael eu dyfarnu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru? (OAQ11802)

**Edwina Hart**: Mae prosesau caffael y Cynulliad yn cael eu gweithredu mewn ffordd sy'n foesegol, yn atebol ac yn cydymffurfio â chyfrifoldebau trefniadol, cyfreithiol a rhyngwladol.

Caiff contractau'r Cynulliad eu gosod mewn cystadleuaeth agored, nid dim ond fel ffordd o sicrhau tegwch ar gyfer yr holl ddarpar gyflenwyr ond hefyd er mwyn annog cyflenwyr i fod yn fwy cystadleuol. Cynigir cyfweliad dibriffio i'r cyflenwyr na lwyddasant i gael contract er mwyn esbonio iddynt beth oedd y rheswm am hynny, ac ar ba agweddau y dylent ganolbwyntio eu hymdrechion er mwyn ennill contractau yn y dyfodol.

### Effaith Polisïau Ariannol ar Faint Cyllideb y Cynulliad yn y Dyfodol

**C14 David Davies:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â Thrysorlys y DU ynghylch yr effaith y bydd polisïau ariannol Llywodraeth y DU yn eu cael ar faint cyllideb y Cynulliad yn y dyfodol? (OAQ11758)

**Edwina Hart**: Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaeth gyda'r Trysorlys ynghylch polisïau ariannol Llywodraeth y DU. Yr wyf yn cyfarfod yn rheolaidd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac yr ydym yn trafod materion ariannol sy'n effeithio ar Gymru a chyllideb y Cynulliad. Mater i Ysgrifennydd Gwladol Cymru yw tynnu sylw Gweinidogion Llywodraeth y DU at y materion hyn.

### 'Statistical Analyses 2001-02' y Trysorlys

**C15 Phil Williams:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch unrhyw oblygiadau sydd gan 'Statistical Analyses 2001-02' y Trysorlys i Gymru? (OAQ11811)

**Edwina Hart**: Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau penodol ynghylch y cyhoeddiad hwn ar wariant cyhoeddus y gellir ei ddynodi ond mae Gweinidogion a swyddogion y Cynulliad mewn cysylltiad rheolaidd â Llywodraeth y DU ynghylch materion sy'n effeithio ar Gymru.

### Gwario ar Wasanaethau Ymgynghorwyr

**C16 Brian Hancock:** Faint sydd wedi'i ddyrannu gan y Cynulliad i'w wario ar wasanaethau ymgynghorwyr yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol? (OAQ11809)

**Edwina Hart**: Nid ydym wedi dyrannu darpariaeth benodol ar gyfer gwasanaethau ymgynghorwyr a delir o gyllidebau rhaglenni ar gyfer 2001-02. Caiff cynigion i dderbyn gwasanaethau ymgynghorwyr eu clirio gan y Gweinidog perthnasol a minnau fesul achos unigol. Rhaid i'r cynigion bennu'r gwerth am arian a nodi'r gyllideb briodol a fyddai'n talu am y gwariant. Hyd yma, nid oes yr un cynnig ar gyfer gwariant ar sail cyllidebau rhaglenni wedi cael eu cymeradwyo.

Neilltuwyd £245,000 at dalu costau unrhyw ymgynghorwyr a ddefnyddir i gynorthwyo gyda gweinyddiaeth y Cynulliad. Hyd yma, nid ydym wedi cymeradwyo unrhyw wariant ar sail y gyllideb hon.

### Llithriant yng Nghyllideb 2000-01 y Cynulliad

**C17 David Melding:** Faint o lithriant a welwyd yng nghyllideb y Cynulliad ar gyfer y flwyddyn 2000-01? (OAQ11757)

**Edwina Hart**: Ar ôl imi wybod yr union wariant, yr wyf yn bwriadu ysgrifennu at bob Aelod Cynulliad ynghylch gwariant yn ystod blwyddyn ariannol 2000-01 a rhoi manylion ynghylch y prif feysydd lle gwelwyd tanwariant.

### Gwario'r £100 Miliwn Ychwanegol a Ddyrannwyd i'r Cynulliad

**C18 Gareth Jones:** A wnaiff y Gweinidog sôn am sut y mae gwasanaethau cyhoeddus allweddol wedi cael eu blaenoriaethu wrth benderfynu sut y gwerir y £100 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ôl y gyllideb? (OAQ11806)

**Edwina Hart**: Caiff y £100 miliwn ychwanegol ei ddyrannu dros dair blynedd ac mae wedi ei gynnwys yng nghronfa wrth gefn y Cynulliad, fel a nodir yn y gyllideb atodol a fabwysiadwyd gan y Cynulliad ar 29 Mawrth 2001. Ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol, yr wyf yn bwriadu dyrannu'r adnoddau yng ngoleuni pwysau sy'n dod i'r amlwg. Byddaf yn ystyried y dyraniad ar gyfer blynyddoedd y dyfodol yng nghyd-destun rownd gynllunio'r gyllideb.

### Adolygu'r Broses Dendro

**C19 Gareth Jones:** A oes unrhyw fwriad gan y Gweinidog i adolygu'r broses dendro ar gyfer contractau sydd yn cael eu dyfarnu gan y Cynulliad Cenedlaethol? (OAQ11805)

**Edwina Hart**: Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn dilyn gweithdrefnau caffael cyhoeddus yr UE, a gaiff eu gweithredu'n gyson drwy holl adrannau Llywodraeth y DU.

Nod y broses dendro yw sicrhau bod yr holl weithgareddau caffael yn foesegol, yn atebol ac yn cydymffurfio â chyfrifoldebau trefniadol, cyfreithiol a rhyngwladol, tra'n sicrhau gwerth am arian ar yr un pryd.

Er nad ydym wedi derbyn unrhyw gynigion i newid y broses dendro hyd yma, mae uned gaffael y Cynulliad yn cynnal adolygiad parhaus o ymarfer gorau ym maes caffael, er mwyn nodi a gwerthuso gweithdrefnau newydd.

### Arian Ychwanegol ar Gyfer Ardaloedd sydd yn Wynebu Newidiadau Strwythurol Mawr

**C20 Jocelyn Davies:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Thrysorlys y DU drwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch arian ychwanegol ar gyfer ardaloedd sydd yn wynebu newidiadau strwythurol mawr? (OAQ11810)

**Edwina Hart:** Fel mae'r cwestiwn yn ei nodi, mae'n ofynnol, yn ôl y datganiad ar bolisi ariannu, i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud ceisiadau o'r gronfa wrth gefn am arian ychwanegol, ar ran y Cynulliad. Pan cyfarfûm ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru yr ydym yn trafod amryw o faterion ariannol, yn enwedig y rhai hynny sy'n effeithio ar ardaloedd o Gymru sy'n wynebu newid economaidd a chymdeithasol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i drafod materion cyllido sy'n effeithio ar Gymru gyda Gweinidogion y Trysorlys, a hynny o wybod yr sefyllfa.

### Adfywio Ardaloedd sydd yn Dibynnu'n Drwm ar y Diwydiant Dur

**C21 Phil Williams:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Thrysorlys y DU drwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch arian arbennig ar gyfer adfywio ardaloedd sydd yn dibynnu'n drwm ar y diwydiant dur? (OAQ11807)

**Edwina Hart**: Fel y gwnaeth Prif Weinidog Cymru'n amlwg yn ei ddatganiad i'r Cynulliad ar 3 Mai, darparodd Llywodraeth y DU £16 miliwn o'r pecyn adfer gwerth £66 miliwn ar gyfer Corus. Cyflwynodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru y ddadl dros arian adfywio ychwanegol yn unol â gofynion y datganiad ar bolisi ariannu; ond daw'r nawdd ar gyfer y gydran hon o'r pecyn o gyllideb y Cynulliad. Ni ddarparwyd arian ychwanegol at y diben hwn yn Lloegr.

### Defnyddio Cynhyrchion o Gymru wrth Godi adeilad Newydd y Cynulliad

**C22 Delyth Evans:** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau bod cynhyrchion o Gymru yn cael eu defnyddio wrth godi adeilad newydd y Cynulliad? (OAQ11817)

**Edwina Hart**: Roedd y cynnig gwreiddiol i barhau â dyluniad Richard Rogers ar gyfer adeilad y Cynulliad yn golygu ei bod yn ofynnol i'r Cynulliad ddilyn trywydd ein nod o sicrhau bod deunyddiau o

Gymru'n cael eu defnyddio. Cymerwyd llawer o ofal wrth lunio strategaeth gaffael sy'n rhoi'r cyfle mwyaf posibl i ddefnyddio deunyddiau o Gymru o fewn cyfyngiadau'r amryw reolau caffael a gwerth am arian. Mae'r penseiri a'r contractwr rheoli trafod â rhai darpar gyflenwyr deunyddiau Cymreig er mwyn sicrhau eu bod yn deall ein gofynion.

**Ariannu Prosiectau Cyfalaf yn y Sector Cyhoeddus**

**C23 Peter Black:** Pa drafodaethau y mae’r Gweinidog wedi’u cael gyda Changhellor y Trysorlys ynghylch newid rheolau gofyniad benthyca’r sector cyhoeddus wrth ariannu prosiectau cyfalaf yn y sector cyhoeddus? (OAQ11746) [R]

**Edwina Hart**: Dim. Fodd bynnag, mae swyddogion mewn cysylltiad rheolaidd â'r Trysorlys ac adrannau eraill y Llywodraeth ynghylch y rheolau sy'n llywodraethu sut yr ariennir prosiectau cyfalaf.

**Gwella Proses Gyllidebol Gyffredinol y Cynulliad**

**C24 Jonathan Morgan:** Pa gynigion sydd gan y weinyddiaeth i wella proses gyllidebol gyffredinol y Cynulliad? (OAQ11760)

**Edwina Hart**: Yr wyf eisoes wedi cyhoeddi dechrau rownd gynllunio'r gyllideb eleni, sy'n ein galluogi i gwblhau'r broses gyllidebol mewn llai o amser na mewn blynyddoedd blaenorol.

**Lliniaru Tlodi Ymhlith Pensiynwyr yng Nghymru**

**C25 Christine Gwyther:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ba effaith a gaiff mesurau yn y gyllideb o ran lliniaru tlodi ymhlith pensiynwyr yng Nghymru? (OAQ11826) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Gwariant Cyhoeddus Uwch yng Nghymru**

**C26 Delyth Evans:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr effeithiau y mae gwariant cyhoeddus uwch yn eu cael yng Nghymru? (OAQ11818)

**Edwina Hart**: Mae effeithiau gwario mwy o arian cyhoeddus yng Nghymru yn dibynnu ar ffurf y cynnydd. Gyda gwariant sy'n ymwneud â materion na ddatganolwyd, bydd yr effeithiau'n dibynnu ar y polisïau a fabwysiadir gan Lywodraeth y DU. Gyda gwariant sy'n ymwneud â materion datganoledig, bydd mwy o wariant yn Lloegr yn golygu bod mwy yn cael ei ychwanegu at floc Cymru, a gall y Cynulliad ei wario yn unol â'i flaenoriaethau ei hun. Yn sgîl y gyllideb ddiweddaraf, ym mis Mawrth 2001, rhoddwyd dyraniad ychwanegol i floc Cymru o tua £100 miliwn dros dair blynedd.

**Defnyddio Arian y Fenter Cyllid Preifat wrth Ariannu Prosiectau Cyfalaf yn y Sector Cyhoeddus**

**C27 Peter Black:** Pa drafodaethau y mae’r Gweinidog wedi’u cael gyda Changhellor y Trysorlys ynghylch defnyddio arian y fenter cyllid preifat wrth ariannu prosiectau cyfalaf yn y sector cyhoeddus? (OAQ11747) [R]

**Edwina Hart**: Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaeth gyda'r Canghellor ynghylch y mater hwn.